CYNGOR CYMUNED PENNAL

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 4ydd o Fedi 2026 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.

Presennol; Cyng. Rhys Parry, William Rees, Sion Evans, James Brunton, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Meirion Roberts ac Aled Rees.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Orffennaf 2026 ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton.

4. **Materion yn codi.**

a) Materion Priffyrdd – Yn dilyn damwain oedd wedi digwydd ar y ffordd o dan Marchlyn, (cyn,mynediad Gwerniago) roedd cais am wyneb anti-skid yno, ond dim ymateb hyd yma.

Adroddwyd y diweddaraf gyda'r sefyllfa yn Rhys Terrace, a bod angen bollards yno, wedi eu rhoi gan y Gyngor Gwynedd. Adroddwyd sylwadau Cyng Aled Rees gyda hyn a diolchwyd iddo.

Roedd copi i law o e-bost i Gyngor Gwynedd yn rhoi y diweddaraf gyda problem dwr ger Ty Alys. Roedd gobaith y byddai'r mater yn cael ei ddatrys cyn y gaeaf.

b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddatblygiadau.

c) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned. Adroddwyd y diweddaraf, sef e-bost gan Meiron yn dweud fod £4491.52 wedi ei wario yn barod a bod £609.17 ar ol i brynu sustem PA. Dywedodd fod angen £448.50 yn ychwanegol i gael sustem dda. Ar gynnig gan Sion Evans a'i eilio gan James Brunton, cytunwyd i dalu hyn oedd ei angen yn ychwanegol o gronfa y Cyngor Cymuned. Diolchwyd i'r Cyng Meirion Roberts am ei holl waith yn cael prisiau ac archebu.

Atgoffwyd pawb o'r gwaith oedd Liz Fenwick yn ei wneud ar pamffled Pennal, a'r gwaith wedi ei ddanfon allan i bawb 28.08.26. Roedd pawb yn unfrydol y gallai Liz fynd ymlaen efo hyn. Atgoffwyd fod hyn yn gost o £920 (nad oedd o fewn y cynllun 'Gwynedd Ni' eleni)

d) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf.

e) **Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt** – cadarnhawyd fod y gwaith i'w wneud yn fuan gan gwmni William Rees.

f) **Cynllun y fynwent newydd yn Pennal** – byddai rhaid trafod y tro nesaf.

g) **Baw cwn ar y Marian –** addawodd Cyng Rhys Parry i edrych i mewn i hyn erbyn y tro nesaf.

h) **Sedd wag ar y Cyngor** – roedd hysbyseb wedi ei roi ar y wefan ac yn y pentref yn gwahodd rhywun oedd eisiau etholiad, ac ni chafwyd ymateb. Hefyd roedd gwahoddiad i gyfethol, a ni chafwyd ymateb. Roedd hyn bellach yn nwylo y Cyngor Cymuned i gyfethol, a byddai rhaid trafod y tro nesaf.

5.**Materion Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw faterion y tro hwn

6. Materion Cyllid.

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (4.09.26), sef Cyfri Cyfredol £26,558.44, Cyfri Cadw £2720.36.

b) Ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng Sion Evans, cytunwyd i dalu yr anfonebau canlynol;

- Cydnabyddiaeth y Clerc (ail – chwarter) £592.12 a HMRC £148.
- Cyngor Gwynedd – Archwilio Mewnol 2025-26 - £360

c) Ceisiadau am arian ;

- Radio Ysbyty Gwynedd – penderfynwyd peidio cyfrannu

7. Gohebiaeth

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn dosbarthu fel bo'r angen.

b) Nodwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn ag Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru (danfonwyd allan i bawb 28.08.26.) Roedd angen rhoi hysbysrwydd i hyn.

c) Nodwyd ohebiaeth am grantiau 'Perthyn' i grwpiau Cymunedol (danfonwyd allan i bawb 28.08.26)

d) Adroddwyd am e-bost gan Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn rhoi y diweddaraf gyda Ysbyty Tywyn, a'r opsiynau gyda ail-agor Ward Dyfi. Byddai rhaid dilyn y datblygiadau.

8**. Unrhyw fater arall.**

- Adroddwyd fod yna potholes ar y Marian oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Addawodd Cyng William Rees fod yng nghofal hyn, a diolchwyd iddo.
- Adroddwyd fod ymholiadau o'r cyhoedd yn gofyn pwy yn union fydd yn cael y tai newydd gan Adra y pentref Pennal. Roedd angen gofyn beth oedd y 'criteria' i ddewis tenantiaid. Byddai'r Clerc yn ymholi.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 30ain o Hydref yn y Ganolfan am 7.30yh.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.45pm.